Cyhoeddwyd 25 Mawrth 2013 | Bydd yn dod i rym ar 22 Ebrill 2013

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Dirprwyo a chyfeirio

1 Yn *Arfer meddygol da**, rydym yn nodi:

- 15 Rhaid i chi ddarparu arfer a gofal o safon da. Os byddwch yn asesu, yn gwneud diagnosis neu'n trin cleifion, rhaid i chi:

  c gyfeirio claf at ymarferwr arall pan fyddai hyn yn diwallu anghenion y claf.

- 44 Rhaid i chi gyfrannu at y broses o drosglwyddo cleifion rhwng darparwyr gofal iechyd a rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd ddiogel. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi:

  a rannu'r holl wybodaeth berthnasol gyda chydweithwyr sy'n ymwneud gyda gofal eich cleifion o fewn y tîm a thu allan y tîm, gan gynnwys adegau pan fyddwch yn trosglwyddo gofal pan fyddwch yn mynd oddi ar ddyletswydd, pan fyddwch yn dirprwyo gofal neu'n cyfeirio cleifion at ddarparwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill.

- 45 Pan na fyddwch yn darparu'r gofal ar gyfer eich cleifion eich hun, er enghraifft, pan na fyddwch ar ddyletswydd neu pan fyddwch yn dirprwyo'r gofal dros glaf i gydweithiwr, rhaid i chi deimlo'n fodlon bod y person sy'n darparu'r gofal yn meddu ar y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol er mwyn darparu gofal diogel ar gyfer y claf.

2 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn esbonio sut y mae modd i feddygon weithredu'r egwyddorion hyn wrth ddirprwyo gofal a gwneud cyfeiriadau. Nid ydych yn atebol i CMC dros weithredoedd (neu ddiffyg gweithredu) y sawl y byddwch yn dirprwyo gofal iddynt neu'n gwneud cyfeiriadau iddynt. Byddwch yn atebol am eich penderfyniadau i drosglwyddo gofal a'r camau y byddwch wedi eu cymryd er mwyn sicrhau na chaiff diogelwch claf ei beryglu. Bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn yr arweiniad hwn yn peryglu'ch cofrestriad.

Dirprwyo

3 Mae dirprwyo yn golygu gofyn i gydweithiwr† ddarparu gofal neu driniaeth ar eich rhan.

4 Wrth ddirprwyo gofal, rhaid i chi deimlo'n fodlon bod yr unigolyn yr ydych yn ei ddirprwyo iddynt yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad er mwyn darparu'r gofal neu'r driniaeth berthnasol; neu y bydd yr unigolyn yn cael eu goruchwylio mewn ffordd ddigonol. Os ydych yn ei ddirprwyo i unigolyn nad ydynt wedi cofrestru gyda chorff rheoliadol statudol, mae modd i gofrestriad gwirfoddol gynnig rhywfaint o sicrwydd bod

* Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC.

† Unrhyw un y mae meddyg yn gweithio gyda nhw, os ydynt yn feddygon hefyd neu beidio.

ymarferwyr wedi bodloni safonau cymhwystra diffiniedig a'u bod yn cydymffurfio gyda safonau cytunedig ar gyfer eu sgiliau a'u hymddygiad proffesiynol.*

5 Pan fyddwch yn dirprwyo gofal, byddwch yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol y claf o hyd.

Cyfeirio

6 Ystyr cyfeirio yw pan fyddwch yn trefnu bod ymarferwr arall yn darparu gwasanaeth nad yw o fewn eich cymhwysedd proffesiynol chi.

7 Fel arfer, byddwch yn cyfeirio at feddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall sydd wedi cofrestru gyda chorff rheoleiddio statudol.

8 Pan na fydd hyn yn wir, rhaid i chi deimlo'n fodlon bod systemau mewn grym er mwyn sicrhau diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarparir – er enghraifft, mae'r gwasanaethau wedi eu comisiynu drwy broses gomisiynu GIG neu gan ymarferydd ar gofrestr achredwyd gan Awdurdod Safonau Proffesiynol.†

9 Bydd y canlynol yn berthnasol os byddwch yn dirprwyo neu'n cyfeirio.

a Dylech esbonio i'r claf eich bod yn bwriadu trosglwyddo rhan o'u gofal neu eu holl ofal, gan esbonio pam.

b Rhaid i chi drosglwyddo'r canlynol i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol dan sylw:

- gwybodaeth berthnasol ynghylch cyflwr a hanes y claf
- diben trosglwyddo'r gofal a/neu'r ymchwiliad, y gofal neu'r driniaeth y mae ei hangen ar y claf.

c Rhaid i chi sicrhau bod claf yn cael gwybod am y sawl y byddant yn gyfrifol am eu gofal cyffredinol ac a yw'r trosglwyddiad yn drosglwyddiad dros dro neu barhaol. Dylech sicrhau bod y claf yn gwybod pwy y dylent gysylltu â nhw os bydd ganddynt gwestiynau neu bryderon ynghylch eu gofal.

d Dylech sicrhau bod y claf yn deall pa wybodaeth y byddwch yn ei throsglwyddo a pham.‡ Os bydd y claf yn gwrthwynebu i'r cam o ddatgelu gwybodaeth amdanynt, y byddwch chi o'r farn ei bod yn hanfodol gwneud hynny er mwyn darparu gofal mewn ffordd ddiogel, dylech esbonio nad oes modd i chi eu cyfeirio neu drefnu eu triniaeth heb ddatgelu'r wybodaeth honno hefyd.

---

* Mae modd gweld gwybodaeth am gofrestrau achrededig ar wefan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Yn ogystal, gweler Cofrestr Wirfoddol a Reolir Cyd-ymgymerwyr Meddygon (pdf)

† Mae gwybodaeth am gofrestrau achrededig ar gael ar wefan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol: www.professionalstandards.org.uk/accredited-registers/about-accredited-registers

‡ Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ym mharagraffau 25-29 *Cyfrinachedd* ynghylch rhannu gwybodaeth o fewn y tîm gofal iechyd. Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd* Llundain, CMC.

Cyhoeddwyd Mawrth 2013
© 2013 Cyngor Meddygol Cyffredinol
Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750)

Cod: GMC/DF-W/0516